

Cytundebau Rhyngwladol: Y Goblygiadau i Gymru

Cytundebau a drafodwyd ar 18 Mawrth 2019

Mawrth 2019

Crynodeb

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer ystyried y goblygiadau i Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU.

Yr hyn yr ydym yn canolbwyntio arno yw tynnu sylw at gytundebau sy'n ymwneud â meysydd polisi y mae'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt, neu sy'n effeithio ar y meysydd polisi hynny mewn rhyw ffordd.

Os felly, rydym yn ystyried a oes angen dod â'r cytundeb i sylw'r Cynulliad cyfan, drwy gyflwyno adroddiad arno, ynteu ddim ond ei nodi ym mhapurau'r pwyllgor.



Ar 18 Mawrth 2019, gwnaethom ystyried saith cytundeb. O'r saith hynny, gwnaethom gytuno i gyflwyno adroddiad ar dri ohonynt fel a welir isod.

Cyflwyniad

1. Ar 18 Mawrth 2019, gwnaethom ystyried saith cytundeb rhyngwladol a lofnodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU.
2. Dyma'r cytundebau a ystyriwyd gennym:
 - Cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir (gwiriadau pellach)
 - Cytundeb masnach Palesteina
 - Cytundeb masnach Israel
 - Cytundeb 1994 ar Gaffael y Llywodraeth
 - Cytundeb Diwygiedig ar Gaffael y Llywodraeth
 - Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth rhwng y DU a'r Unol Daleithiau
 - Cytundeb rhwng y DU a'r Unol Daleithiau ar gyd-gydnabod tystysgrifau cydymffurfiaeth ar gyfer offer morol
3. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad ar dri o'r cytundebau a drafodwyd er mwyn tynnu sylw at bryderon a godwyd ynghylch ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig.
4. Dyma'r cytundebau y cytunwyd i gyflwyno adroddiad arnynt:
 - Cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir
 - Cytundeb masnach Palesteina
 - Cytundeb masnach Israel

1. Cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir

Y cefndir

1. Mae'r cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir yn **gytundeb parhad masnach**.
2. Mae testun y cytundeb a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU [i'w gweld ar-lein](#).
3. Gosodwyd y cytundeb gerbron Senedd y DU ar 20 Chwefror a daw cyfnod 21 diwrnod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu i ben ar 27 Mawrth 2019.

Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad?
Ydi, mae'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?
Oes, fel y nodir yn yr adran hon.

4. Mae trefniadau masnachu cyfredol y DU (fel rhan o'r UE) gyda'r Swistir yn gymhleth. Nid oes un cytundeb masnach hollgynhwysol rhwng yr UE a'r Swistir, ond yn hytrach gyfres o gytundebau llai sydd wedi'u cronni dros 47 mlynedd. I'r graddau y mae'r cytundebau hyn yn ymwneud â masnach, maent yn canolbwyntio ar fasnachu nwyddau, gan fynd i'r afael hefyd â rhai meysydd eraill megis trefniadau caffael y llywodraeth. Nid oes un cytundeb hollgynhwysol ar fasnachu gwasanaethau y gellir ei ddyblygu. Mae'r trefniadau masnachu nwyddau sy'n cael eu cwmpasu yn y cytundebau yn cynnwys sawl cytundeb ynglŷn â masnachu nwyddau yn gyffredinol; amaethyddiaeth a physgodfeydd; trefniadau cyd-gydnabyddiaeth; trefniadau caffael; gweithgareddau gwrth-dwyll; diogelwch tollau; a rheolau tarddiad. Mae'r cytundebau hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio offeryn ymbarél.

Masnach rhwng y DU a'r Swistir

5. Cyfanswm y nwyddau a'r gwasanaethau a gafodd eu masnachu rhwng y DU a'r Swistir oedd £32.1 biliwn yn 2017, sef 2.5% o gyfanswm masnach y DU, gan olygu mai'r Swistir yw 10fed partner masnachu mwyaf y DU. Allforiodd y DU nwyddau a gwasanaethau gwerth £20.2 biliwn i'r Swistir yn 2017, ac fe fewnforiodd nwyddau a gwasanaethau gwerth £11.9 biliwn o'r Swistir.

6. Dyma'r prif allforion nwyddau a gwasanaethau o'r DU i'r Swistir yn 2017:

- Cerrig a metelau gwerthfawr - £10.7 biliwn;
- Gwasanaethau busnes eraill (cyfreithiol, cyfrifyddu, ymgynghori â rheolwyr) - £6.5 biliwn;
- Gwasanaethau ariannol - £2 biliwn;
- Gwasanaethau teithio - £1.2 biliwn; a
- Gwaith celf, darnau casglwyr a hen greiriau - £1.1 biliwn

7. Y prif fewnforion nwyddau a gwasanaethau i'r DU o'r Swistir yn 2017 oedd:

- Cerrig a metelau gwerthfawr - £4.2 biliwn;
- Cynhyrchion fferyllol - £3.3 biliwn;
- Gwasanaethau busnes eraill (cyfreithiol, cyfrifyddu, ymgynghori â rheolwyr) - £1.1 biliwn;
- Gwasanaethau teithio - £777 miliwn; a
- Clociau, ororiau a rhannau mecanyddol - £ 750 miliwn

8. Yn 2017, roedd masnach nwyddau rhwng Cymru a'r Swistir yn werth £281 miliwn, sy'n 0.8% o holl fasnach Cymru mewn nwyddau. Allforiodd Cymru nwyddau gwerth £159 miliwn i'r Swistir yn 2017, **gan olygu mai'r Swistir oedd 18^{fed} lleoliad allforio mwyaf Cymru ar gyfer nwyddau..** Mewnforiodd Cymru werth £122 miliwn o nwyddau o'r Swistir. Dyma'r prif allforion nwyddau o Gymru i'r Swistir yn 2017:

- Cynhyrchion meddyginiaethol a fferyllol - £83.8 miliwn;
- Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer - £19.3 miliwn;

- Peiriannau swyddfa a pheiriannau prosesu data awtomataidd - £7.4 miliwn;
- Peiriannau a theclynnau trydanol - £5.2 miliwn; a
- Peiriannau ffatri a pheiriannau ac offer diwydiannol cyffredinol - £4.8 miliwn

9. Y prif fewnforion nwyddau i Gymru o'r Swistir yn 2017 oedd:

- Cynhyrchion meddyginiaethol a fferyllol - £51.2 miliwn;
- Cemegau organig - £15.7 miliwn;
- Offer trafndiaeth arall (tryciau bagiau, slediau, certiau llaw, certiau siopa) - £14.1 miliwn;
- Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer - £9.6 miliwn; ac
- Offer a chyfarpar proffesiynol a gwyddonol - £4.1 miliwn

10. Y Data diweddaraf sydd ar gael ar allforion gwasanaeth o Gymru i'r Swistir yw [data 2015](#) - ond nid yw data ar fewnforio gwasanaethau i'w cael. Yn 2015, gwnaeth Cymru allforio gwerth £67 miliwn o wasanaethau i'r Swistir, sy'n 4.1% o gyfanswm allforio gwasanaethau Cymru, **gan olygu mai'r Swistir yw 5^{ed} partner allforio mwyaf Cymru ar gyfer gwasanaethau**. Prif allforion gwasanaeth Cymru i'r Swistir oedd gwasanaethau gweithgynhyrchu (£31 miliwn) a gwasanaethau gwybodaeth a chyfathrebu (£21 miliwn).

Sut mae'r cytundeb rhwng y DU a'r Swistir yn cymharu â'r cytundeb rhwng yr UE a'r Swistir

Mecanwaith iawndal am brisiau

11. Mae Protocol 2 o'r Cytundeb Masnach Rydd Corfforedig rhwng yr UE a'r Swistir yn cynnwys Mecanwaith Iawndal am Brisiau sy'n caniatáu i bartïon osod treth ar rai cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i roi iawndal am lefelau prisiau gwahanol deunyddiau crai penodol a gynhwysir yn y cynhyrchion wedi'u prosesu. Mae'r Mecanwaith Iawndal am Brisiau wedi ei addasu er mwyn sicrhau bod y mecanwaith yn weithredol mewn cyd-destun dwyochrog rhwng y DU a'r Swistir. Mae'r mecanwaith y cytunwyd arno yn sicrhau na fyddai'r Swistir, wrth ddefnyddio'r mecanwaith, yn gosod trethi uwch ar gynhyrchion y DU nag y mae'n eu gosod ar fewnforion o'r UE. Yn yr un modd, petai'r mecanwaith yn cael ei ddefnyddio gan y DU, ni fyddai'r DU yn gosod trethi uwch ar fewnforion o'r Swistir

na'r trethi a osodir gan yr UE ar fewnforion o'r Swistir. Dyma newid technegol sy'n darparu ar gyfer parhad mewn effaith.

Rheolau tarddiad

12. Mae Protocol 3 o'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r Swistir yn ymdrin â rheolau tarddiad. Cytunwyd yn y Cytundeb Masnach rhwng y DU a'r Swistir y gellir cynnwys deunyddiau o'r UE o fewn allforion y DU i'r Swistir ac allforion y Swistir i'r DU. At hynny, gellir cynnwys trefniadau prosesu'r UE o fewn allforion y DU i'r Swistir. **Oni bai a hyd nes y bydd cytundeb masnach ffafriol rhwng y DU a'r UE yn ei le, bydd y trefniadau hyn yn parhau am gyfnod dros dro o 3 blynedd gan ddechrau ar adeg ymadawiad y DU â'r UE.** Heb fod yn hwyrach na chwe mis cyn diwedd y cyfnod dros dro hwn, bydd y DU a'r Swistir yn ystyried a ddylid ymestyn y cyfnod neu a oes angen addasu'r darpariaethau perthnasol.

Cyd-gydnabyddiaeth

13. Mae'r Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth rhwng yr UE a'r Swistir yn un 'estynedig' sy'n golygu bod rheolau'r Swistir a'r UE a gwmpesir gan y cytundeb yn cael eu hystyried yn gywerth â'i gilydd. Mae hyn yn golygu mai dim ond yn erbyn un set o ofynion rheoleiddio y mae angen i fusnesau brofi cynnyrch er mwyn iddo gael ei dderbyn yn y ddwy farchnad. **Mae'r Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth rhwng yr UE a'r Swistir yn cwmpasu 20 sector, gan gynnwys arferion da o ran gweithgynhyrchu cynnyrch fferyllol, cynnyrch modurol, peiriannau a theganau.**

14. Mae'r Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n seiliedig ar gydnabod cywerthedd deddfwriaethol mewn rhai meysydd rhwng yr UE a'r Swistir a/neu yn seiliedig ar roi mynediad i'r Swistir i systemau penodol yr UE. Lle mai dyna'r achos, mae'r DU a'r Swistir wedi ceisio trefniadau gwahanol i sicrhau parhad mewn effaith yn eu perthynas ddwyochrog **ond yn y rhan fwyaf o'r meysydd yn y Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth, nid yw wedi bod yn bosibl hyd yma canfod atebion i'r broblem hon.**

15. Dim ond tri o'r penodau ar gynhyrchion sydd wedi'u trosglwyddo i'r cytundeb rhwng y DU a'r Swistir. Dyma'r tri: cerbydau modur; arferion da yn y labordy; a chynhyrchion meddyginiaethol, arferion da o ran gweithgynhyrchu a swmp-archwilio. Mae'r rhain yn gyfrifol am 76% o allforion y DU a gwmpesir gan y Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth, ac 84% o'r mewnforion. O ran yr 17 pennod arall ar gynhyrchion, nid oedd yn bosibl cytuno ar hyn o bryd i drefniadau cywerthedd barhau â'r Swistir oherwydd rhyngddibyniaeth ar gyfreithiau a systemau'r UE. Mae'r meysydd lle nad yw trefniadau cywerthedd wedi cael eu trosglwyddo yn cynnwys:

- Peiriannau;
- Cyfarpar Diogelu Personol;
- Teganau;
- Dyfeisiau Meddygol;
- Offer Nwy a Boeleri;
- Llongau Pwysedd;
- Cyfarpar radio ac offer terfynell telathrebu;
- Offer a systemau amddiffyn y bwriedir eu defnyddio mewn atmosfferau a allai fod yn ffrwydrol;
- Offer trydanol a chydwedddoldeb electromagnetig;
- Peiriannau ac offer adeiladu;
- Mesur offerynnau a rhag-becynnau;
- Tractorau amaethyddol neu dractorau coedwigaeth;
- Cynhyrchion adeiladu;
- Liffftiau;
- Cynhyrchion bioladdol;
- Gosodiadau ceblau; a
- Ffrwydron ar gyfer defnydd sifil.

16. Mae nifer o'r rhain i'w gweld yn y rhestr o brif allforion Cymru i'r Swistir.

17. Yn sgil hyn, mae'r DU wedi cytuno â'r Swistir - drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth - i gydweithio, ochr yn ochr â chyrrff rheoleiddio perthnasol, i gytuno ar drefniadau a fydd yn caniatáu cydnabod cyrff asesu cydymffurfiaeth yn y meysydd a gwmpesir gan y penodau ar gynhyrchion. Bydd gan y cyd-bwyllgor perthnasol y pŵer i ddod â'r penderfyniad hwn i rym, a hynny pan fydd y ddau barti'n cytuno ei bod yn bosibl gwneud hynny.

18. Yn yr un modd â'r Cytundebau Cyd-gydnabyddiaeth, ni throsglwyddwyd nifer o benodau yn y cytundeb rhwng yr UE a'r Swistir ar gynnyrch organig a

mesurau glanweithdra / ffytoiechydol i'r cytundeb rhwng y DU a'r Swistir. Nid yw hyn yn bosibl oherwydd y gofynion cyfredol o ran cywerthedd neu uniondeb â chyfreithiau a systemau'r UE. Wrth i siâp y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol esblygu, bydd yr atodiadau hyn yn cael eu hailystyried.

Cwotâu cyfraddau tariff

19. Mae cwotâu cyfraddau tariff wedi cael eu newid o ran eu maint yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth gan gynnwys data defnydd hanesyddol a data llif masnach. Er mwyn mynd i'r afael â chyfleoedd i fusnesau yn y DU a'r Swistir gael mynediad i'r farchnad yn y dyfodol, cytunwyd hefyd i ddefnyddio dangosydd procsi i osod cwotâu cyfraddau tariff lle roedd data'n dangos bod masnach hanesyddol yn isel. Mae hyn yn cynnwys achosion lle na wnaed dim defnydd gan y DU na'r Swistir o gwotâu cyfraddau tariff. Mae gwneud hynny yn caniatáu cyfleoedd i fusnesau yn y DU a'r Swistir gael mynediad i'r farchnad yn y dyfodol. Mae'r cwotâu cyfraddau tariff yng nghytundeb y DU a'r Swistir ar gyfer cynhyrchion a phlanhigion sy'n darparu bwyd a diod.

Mesurau diogelu dynodiadau daearyddol

20. Mae'r Cytundeb Masnach rhwng y DU a'r Swistir yn cadw'r mesurau diogelu dynodiadau daearyddol a ddarperir yn y Cytundebau Masnach rhwng yr UE a'r Swistir ar gyfer dynodiadau daearyddol y DU a'r Swistir. Mae'r mesurau diogelu a gedwir yn cynnwys y rhai sy'n ymestyn i diriogaeth Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, a elwir yn 'ddynodiadau daearyddol trawsffiniol', ar gyfer 'Irish Whisky'/'Irish Whiskey'/'Uisce Beatha Eireannach' ac 'Irish Cream'.

Diogelwch tollau

21. Mae'r Cytundeb Diogelwch Tollau Corfforedig rhwng y Swistir a'r UE wedi'i datgymhwyso'n llwyr yn y cytundeb rhwng y DU a'r Swistir. Gwnaed hyn oherwydd byddai parhau â'r cytundeb hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU ddod i gytundeb â'r UE ynghylch diogelwch. Pan ddaw'r Cytundeb Masnach rhwng y DU a'r Swistir i rym, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried a ddylid cymhwyso'r cytundeb hwn gyda neu heb addasiadau ar ôl ystyried y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y maes hwn. Effaith hyn yw colli cyd-gydnabyddiaeth i gynllun Gweithredwyr Economaidd Awdurdodedig y DU gyda'r Swistir, ac y byddai hyn yn arwain at fasnachwyr / busnesau sydd wedi eu hachredu gan Weithredwyr Economaidd Awdurdodedig y DU yn colli allan ar y manteision a geir yn sgil bod yn fasnachwr y gellir ymddiried ynddo, er enghraifft llai o wiriadau ar ffin y Swistir.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

22. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi cael ei lofnodi rhwng y DU a'r Swistir. Mae hyn yn ymrwymo'r DU a'r Swistir i gynnal trafodaethau parhaus ynghylch sicrhau bod ein cysylltiadau masnach yn parhau cyn i Gytundeb Masnach y DU a'r Swistir ddod i rym. Yn benodol, bydd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar feysydd o'r Cytundebau Corfforedig sydd wedi'u hatal yn y Cytundeb ar hyn o bryd.

23. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys ymrwymiad penodol i weithio tuag at drefniadau sy'n caniatáu cyd-gydnabod cyrff asesu cydymffurfiaeth, a hynny yn y sectorau a gwmpesir gan y Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth rhwng yr UE a'r Swistir. Y nod fyddai dod â'r trefniadau hyn i rym ar y dyddiad y daw Cytundeb Masnach y DU a'r Swistir i rym.

24. Bydd y DU a'r Swistir yn cynnal trafodaethau archwiliadol gyda'r bwriad o ddisodli neu foderneiddio'r Cytundeb Masnach rhwng y DU a'r Swistir o fewn 24 mis o'r dyddiad y bydd y DU yn ymadael â'r UE, ni waeth a yw'r Cytundeb Masnach rhwng y DU a'r Swistir wedi dod i rym erbyn hynny.

Nid mater syml o drawsnewid? Datgymhwyso darpariaethau

25. Mae'r cytundeb masnach a lofnodwyd gan y DU a'r Swistir yn darparu ar gyfer hawliau a rhwymedigaethau dwyochrog cyfatebol o dan y cytundeb ar ôl y dyddiad ymadael. Er y nodir bod y cytundeb rhwng y DU a'r Swistir yn cyfateb i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r Swistir "cyn belled ag y bo'n bosibl," **mae'n bwysig nodi nad dim ond mater ydyw o drawsnewid o'r berthynas fasnach rhwng yr UE a'r Swistir.**

26. Mae Memorandwm Esboniadol y DU yn nodi lle mae parhad yn bosibl a lle bo darpariaethau wedi eu "datgymhwyso", ac mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn rhestru nifer o feysydd lle mae angen trafodaethau neu archwiliadau pellach. Hynny yw, mae yna rai meysydd nad ydynt (eto) yn rhan o'r cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir. Mae hyn yn golygu, yn ei dro, os nad oes Brexit "trefnus" - hynny yw, Brexit caled ar 29 Mawrth neu ddim cytundeb rhwng yr UE a'r DU yn ddiweddarach - ac os bydd y cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir yn dod i rym, ni fydd y darpariaethau hyn, sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r Swistir, yn berthnasol i fasnach rhwng y DU a'r Swistir ac felly bydd hyn hefyd yn effeithio ar fasnach rhwng Cymru a'r Swistir.

27. Os oes cytundeb rhwng y DU a'r UE, yna efallai y bydd angen i'r DU a'r Swistir drafod ymhellach i sicrhau bod y materion/meysydd coll hyn wedi'u cynnwys yn y cytundeb.

Amaethyddiaeth

28. Rhag ofn na cheir cytundeb rhwng y DU a'r UE, ni fydd y Cytundeb Amaethyddiaeth rhwng y Swistir a'r UE bellach yn gymwys o'r dyddiad ymadael. Mae'r cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir yn darparu i barhau i gymhwyso hawliau a rhwymedigaethau cyfatebol presennol yn y Cytundeb ar Amaethyddiaeth rhwng y Swistir a'r UE cyn belled ag y bo modd.

29. Mae hyn yn gymharol syml yn y meysydd hynny nad ydynt yn seiliedig ar gysoni deddfwriaeth neu gydnabod rheoliadau cyfatebol (er enghraifft, cwotâu tollau, masnach rydd mewn caws, dynodiadau daearyddol, gwin a gwirodydd, safonau marchnata ar gyfer ffrwythau a llysiau ffres). Gellir cytuno ar gytundebau dwyochrog sy'n seiliedig ar y Cytundeb Amaethyddiaeth rhwng y Swistir a'r UE, ac wedi hyn gellir parhau â chysylltiadau masnach y DU a'r Swistir yn y meysydd hyn yn yr un modd ag o'r blaen.

30. Fodd bynnag, nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod angen i'r DU a'r Swistir ystyried a ellir cynnal y status quo mewn perthynas â materion nad ydynt yn ymwneud â thariffau. Hynny yw, ar hyn o bryd mae'n aneglur a fydd y penodau a ganlyn o'r Cytundeb Amaethyddiaeth rhwng y Swistir a'r UE yn cael eu cymhwyso rhwng y DU a'r Swistir gyda neu heb addasiadau pellach ynteu a fydd yn cael ei ddisodli gan drefniadau newydd er budd y ddau barti:

- Pennod 4 – iechyd planhigion
- Pennod 5 – bwyd anifeiliaid
- Pennod 6 – hadau
- Pennod 9 – cynhyrchion a bwydydd amaethyddol a gynhyrchir yn organig

31. Os na cheir cytundeb ar y materion hyn, ni fyddai busnesau ac unigolion yn y DU ond yn gallu mewnforio bwyd anifeiliaid o'r DU petai rheoliadau cyfatebol y Swistir yn cael eu bodloni, a allai arwain at oblygiadau difrifol i allforion amaethyddiaeth y DU.

32. Ceir ansicrwydd tebyg ynglŷn â Phennod 11 o'r Cytundeb Amaethyddiaeth rhwng y Swistir a'r UE, sy'n ymdrin â iechyd anifeiliaid a mesurau sootechnegol sy'n gymwys wrth fasnachu anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid.

33. Os na cheir cytundeb rhwng y DU a'r UE, ni fydd y DU bellach yn rhan o'r un ardal filfeddygol â'r Swistir, sy'n golygu mai dim ond o dan amodau penodol y gall anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU gael eu mewnfario i'r Swistir, gan amharu ar fasnach o ganlyniad.

34. Ni ellir ond osgoi amhariad o'r fath os yw'r UE yn penderfynu gosod y DU ar ei rhestr o drydydd gwledydd. Dim ond yr UE all benderfynu pa mor hir y bydd yr amhariad yn para, gan fod y Swistir yn mabwysiadu rhestrau'r UE. Mae'n annhebygol y bydd yr UE yn rhoi'r DU ar ei rhestr os yw'r DU yn gostwng ei safonau, er enghraifft yn sgil cytundeb masnach rhwng UDA a'r DU.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

35. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 4 Mawrth 2019, **dywedodd** Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol:

The Swiss one is interesting, because it's—. I don't think it's—. It's not including it, rather than doing something new. So, that's still not a political change that's happening there, it's just being eliminated somehow. Now, there's not much we can do about that, so, again, I think we'd rather have something and lock down those areas we can, in particular Switzerland, which is one of our top 10 export markets.

36. Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru, Emma Edworthy, **na fyddai'r newidiadau** i gytundeb y Swistir (penodau nad ydynt wedi'u cynnwys o'r cytundeb cyd-gydnabyddiaeth rhwng yr UE a'r Swistir, y cytundeb glanweithiol/ffytoiechydol a datgymhwyso'r cytundeb diogelwch tollau) yn gofyn am newid ym mholisi Llywodraeth Cymru.

Switzerland, for instance, has an agreement where, yes, it's not the same, but bits have been missed out, but none of those bits that have been missed out need a change in policy from our perspective. And the bits that've been missed out are in relation to the Swiss agreements with the EU, which really need us to have an agreement with the EU. So, those agreements can't be made between the UK and Switzerland until the agreement with the UK and EU is worked out. But we don't see them as a need to change policy in Wales.

Lefel yr ymgynghori â Llywodraeth Cymru

37. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ochr yn ochr â'r cytundeb yn datgan:

The Government is also in close contact with the Devolved Administrations and continues to engage the Governments of the territories for those international relations the UK is responsible.

International relations including the making of treaties is not devolved. However, as there is likely to be significant impact on Scotland, Wales and Northern Ireland, the government has regularly updated the Devolved Administrations and has shared the texts of parliamentary reports and explanatory memorandums with them.

38. Mae llythyr Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i'r Pwyllgor ar 26 Chwefror yn datgan:

Mae swyddogion yr Adran dros Fasnach Ryngwladol a'm swyddogion i mewn cyswllt rheolaidd ynglŷn â Pharhad Cytundebau Masnachu - rydym yn cael diweddariadau wythnosol ar statws y cytundebau hyn ac mae uwch swyddogion yn cael sgysiau mwy manwl am y pwnc penodol hwn bob tair wythnos. Ar lefel Gweinidogion, rwyf i (a'm rhagflaenydd, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth) wedi cael trafodaethau rheolaidd dros y ffôn â'r Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, George Hollingbery, lle rhoddir sylw i brosiectau 'dim cytundeb' fel hyn.

39. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld testun drafft y cytundeb cyn iddo gael ei lofnodi.

Gweithgarwch yn neddfwrfeydd eraill y DU:

40. Mae adroddiad Pwyllgor Dethol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi, a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth, yn gofyn i Dŷ'r Arglwyddi roi sylw arbennig i'r cytundeb. Mae'r adroddiad yn nodi bod y cytundeb yn wahanol iawn i'r cytundeb blaenorol y mae'r DU yn rhan ohono fel Aelod-wladwriaeth yr UE. Mae hefyd yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol (mewn perthynas â'r cytundebau parhad masnach â Chile, Dwyrain a De Affrica ac Ynysoedd Ffaröe) y dylai deunydd esboniadol

Llywodraeth y DU nodi'n glir a ymgynghorwyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, y diwydiant neu randdeiliaid eraill.

41. Mae adroddiad Tŷ'r Arglwyddi hefyd yn canolbwyntio ar lawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, hynny yw y newidiadau i drefniadau cyd-gydnabyddiaeth, cynhyrchion organig, mesurau glanweithdra/ffytoiechydol a threfniadau diogelwch tollau.

42. Dywedodd yr Adran Masnach Ryngwladol wrth Dŷ'r Arglwyddi nad oedd y Llywodraeth wedi cael adborth penodol gan randdeiliaid o'r diwydiant ar y penodau heb eu cynnwys yn y Cytundeb Cyd-gydnabyddiaeth a'r Cytundeb Amaethyddiaeth, ond y cynigiwyd cyfarfodydd pellach iddynt. **Roedd pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi hefyd yn siomedig nad yw'r Llywodraeth, wrth gyflwyno'r Cytundeb Masnach rhwng y DU a'r Swistir, wedi rhoi eglurhad o'i chynlluniau ar gyfer masnach gwasanaethau rhwng y DU a'r Swistir yn y dyfodol, a galwodd y pwyllgor ar y Llywodraeth i wneud hynny.**

Safbwynt y Swistir

43. Wrth groesawu'r cytundeb, dywedodd Cyngor Ffederal y Swistir fod sicrhau'r cytundeb yn rhan o'i strategaeth Mind the Gap, wrth i'r Swistir fod yn awyddus i sicrhau y bydd yr hawliau a'r rhwymedigaethau cydfuddiannol presennol â'r DU yn parhau i fod yn gymwys cyn belled ag y bo modd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, gan ymestyn yr hawliau a'r rhwymedigaethau hynny lle bo angen.

44. Dywedodd y Cynghorydd Ffederal, Guy Parmelin, Pennaeth Adran Materion Economaidd, Addysg ac Ymchwil Llywodraeth Ffederal y Swistir:

I am very pleased to have signed this agreement today. It ensures continuity in our trade relations after the United Kingdom leaves the European Union and lays the foundations for our future relations.

45. Croesawodd Anne-Marie de Weck, Llywydd y Siambr Fasnach rhwng Prydain a'r Swistir, y cytundeb gan ddweud:

The BSCC welcomes the signing of the UK Government's continuity trade agreement with Switzerland.

It is imperative for our members, both British and Swiss businesses, that trade continues. Switzerland is the UK's seventh largest export market, third largest non-EU market, eighth largest foreign direct investor and 10th top destination for UK outward direct investment. It is paramount

that the British and Swiss governments have secured the continuation of a huge trading relationship with this agreement.

Mewnbwn arbenigol

46. Mae Dr Jappe Eckhardt o Brifysgol Efrog wedi rhoi mewnbwn arbenigol wrth inni ystyried y cytundeb hwn, ac mae ei gyngor wedi cyfrannu at y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.

Casgliad

Er ein bod yn falch o glywed bod lefel y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwella, **rydym yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i ystyried testun y cytundeb hwn cyn iddo gael ei lofnodi.** Mae hyn yn peri pryder yn arbennig o ystyried cymhlethdod y cytundeb hwn ac mor bwysig ydyw i Gymru fasnachu â'r Swistir.

Rydym yn ailadrodd ein galwad i Lywodraeth Cymru gael gweld testun cytundebau cyn iddynt gael eu llofnodi ac yn credu bod hyn er lles Cymru a Llywodraeth y DU.

Nid yw'r cytundeb hwn yn fater syml o drawsnewid. Fel y mae ar hyn o bryd, mae bylchau sylweddol yn y parhad y byddai'n ei gynnig petai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, gan gynnwys bylchau mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru, fel amaethyddiaeth.

Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn trafod yn llawn â Llywodraeth Cymru wrth i'r cytundeb hwn gael ei ddatblygu yn y dyfodol, ac rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi gwybod inni am unrhyw gynnydd.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r bylchau yn y trefniadau parhad o dan y cytundeb hwn, gan sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cael gwybod am y goblygiadau i Gymru o ganlyniad i'r bylchau, gan gymryd camau i liniaru'r bylchau.

2. Y cytundebau gyda Phalesteina ac Israel

Nodyn ar y cytundebau hyn

47. Ni wnaeth ein dadansoddiad o'r cytundebau hyn ganfod unrhyw faterion polisi neu faterion cymhwysedd penodol yr oedd angen cyflwyno adroddiad arnynt.

48. Fodd bynnag, fel oedd yr achos â nifer o gytundebau eraill yr ydym wedi'u hystyried hyd yma, **nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld testun y cytundebau hyn cyn iddynt gael eu llofnodi.**

49. Dyma'r prif fater yr ydym yn ei godi yn ein casgliadau. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r holl wybodaeth, dyma fanylion ein hasesiad cychwynol o'r cytundebau.

Y Cytundeb Masnach a'r Bartneriaeth rhwng y DU ac Israel

50. Cafodd y Cytundeb Masnach a'r Bartneriaeth rhwng y DU ac Israel ei osod gerbron Senedd y DU ar 26 Chwefror 2019, a daw cyfnod 21 diwrnod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu i ben ar 4 Ebrill 2019.

51. Mae Israel yn safle 46 o ran partneriaid masnachu mwyaf y DU, sy'n rhoi cyfrif am 0.3% o gyfanswm masnach y DU. £3.9 biliwn oedd cyfanswm y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU ac Israel yn 2017. Yn 2017, £2.3 biliwn oedd allforion y DU i Israel, gan ei rhoi yn safle 42 o ran marchnadoedd allforio mwyaf y DU (yn gyfrifol am 0.4% o holl allforion y DU). £1.6 biliwn oedd mewnforynion y DU o Israel, gan roi Israel yn safle 66 o ran ffynonellau mewnforynion mwyaf y DU (sy'n rhoi cyfrif am 0.3% o holl fewnforynion y DU).

52. Roedd y prif nwyddau a gwasanaethau a allforiwyd o'r DU i Israel yn 2017 yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau busnes eraill (cyfreithiol, cyfrifyddu, ymgynghori â rheolwyr) - £247 miliwn;
- Gwasanaethau teithio - £241 miliwn;
- Cerbydau heblaw am stoc rheilffyrdd neu dramffyrdd - £230 miliwn;
- Gwasanaethau cludo - £201 miliwn; a
- Peiriannau a chyfarpar mecanyddol - £184 miliwn.

53. Dyma'r prif nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd o Israel i'r DU yn 2017:

- Gwasanaethau busnes eraill (cyfreithiol, cyfrifyddu, ymgynghori â rheolwyr) - £156 miliwn;
- Plastigau a deunydd a wneir o blastig - £156 miliwn;
- Cerrig a metelau gwerthfawr - £153 miliwn;
- Peiriannau a chyfarpar mecanyddol - £132 miliwn;
- Peiriannau a chyfarpar trydanol - £122 miliwn

54. Mae masnach rhwng Cymru ac Israel hefyd yn gymharol fach, gyda gwerth £89.9 miliwn o fasnach mewn nwyddau rhwng y ddwy wlad yn 2017, sy'n cynrychioli 0.26% o holl fasnach Cymru. £47.4 miliwn oedd gwerth yr allforion nwyddau o Gymru i Israel yn 2017, a £42.5 miliwn oedd gwerth y mewnforion nwyddau o Israel. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o 2015 yn dangos bod allforion gwasanaethau o Gymru i Israel hefyd yn gymharol fach, gydag allforion o £5 miliwn yn 2015, sef 0.3% o gyfanswm allforion gwasanaethau Cymru.

55. Bydd y tariffau ar nwyddau rhwng y DU ac Israel yn parhau i fod yr un peth â'r rhai sydd ar waith o dan y cytundeb rhwng yr UE ac Israel, ac eithrio maint y cwotâu cyfraddau tariff ar gyfer cynhyrchion penodol. Mae'r newidiadau i faint cwotâu cyfraddau tariff wedi'u newid i adlewyrchu'r ffaith bod y DU yn fewnforiwr ac allforiwr llai na'r UE28. Cafwyd cytundeb rhwng y DU ac Israel i osod cwotâu i lefel ddigonol a fydd yn caniatáu parhad llif masnach hanesyddol, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, i fewnforwyr ac allforwyr o'r ddwy ochr. Pan fo'n bosibl, mae maint cwotâu cyfraddau tariff wedi cael eu newid yn seiliedig ar dair blynedd o ddata tollau, sy'n darparu manylion ar ddefnydd gwirioneddol y cwotâu cyfraddau tariff gan fewnforwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faint o nwyddau unigol a gafodd eu cludo, a pha ddyddiad y gwnaed hynny. Lle nad oes gwerth tair blynedd o ddata tollau, defnyddiwyd data llif masnach yn lle.

56. Mae'r cwotâu cyfraddau tariff yn cwmpasu allforion cynhyrchion bwyd a diod y DU i Israel fel cig, cynnyrch llaeth, ffrwythau a llysiau. Maent hefyd yn cynnwys cynhyrchion bwyd a diod fel cig, ffrwythau a llysiau a gaiff eu mewnforio i'r DU o Israel. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl mai cyfyngedig fydd yr effaith gyffredinol a fydd yn wynebu cynhyrchwyr a phrynwyr o'r DU o ganlyniad i'r dull hwn o newid maint cwotâu cyfraddau tariff.

57. Mae gan yr UE system prisiau mynediad ar gyfer 15 math o ffrwythau a llysiau. Mae hwn yn fecanwaith tariffau amrywiol ar gyfer cynhyrchion yn ystod tymhorau cnwd yn Ewrop. O dan y system prisiau mynediad, codir toll benodol yn ychwanegol at y doll yn ôl gwerth, a hynny pryd bynnag y mae'r pris y caiff y

nwyddau eu mewnfario yn is na'r pris mynediad sydd wedi'i bennu ymlaen llaw. Mae'r doll benodol yn amrywio gan ddibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y pris mynediad a phris mewnfario'r nwyddau. Os yw pris mewnfario'r llwyth nwyddau lai nag 8% yn uwch na'r pris mynediad, bydd y tariff yn cael ei gymhwyso'n llawn.

58. Mae'r DU yn cadw'r hyblygrwydd i weithredu system prisiau mynediad ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r atodiad i'r cytundeb byr hwn yn sicrhau bod gan y DU hawl i weithredu system prisiau mynediad, sy'n adlewyrchu system yr UE, ar yr adeg y daw'r cytundeb i rym. **Os bydd y DU yn cymhwyso system prisiau mynediad, bydd y cytundeb hwn yn darparu bod yr elfen o'r doll sy'n seiliedig ar werth yn cael ei ddileu, ond bydd y doll benodol ychwanegol yn cael ei chadw.** Byddai'r doll benodol ychwanegol yn cael ei chymhwyso, ni waeth a gâi'r elfen o'r doll sy'n seiliedig ar werth ei dileu ai peidio fel a ddarperir yn y Cytundeb hwn. Mae'r dull hwn yn gyson â'r telerau ffafriol a amlinellir yn y Cytundebau Masnach presennol rhwng yr UE ac Israel.

59. O ran rheolau tarddiad, gellir cronni deunyddiau'r UE yn allforion y DU ac Israel i'w gilydd. Ymhellach, gellir cydnabod trefniadau prosesu'r UE yn allforion y DU i Israel. Mae'r trefniadau hyn yn amodol ar fodloni amodau penodol a nodir yn y cytundeb. Mae'r UE ac Israel wrthi'n contractio partïon i'r Confensiwn Rhanbarthol pan Ewropeaidd Mediteranaidd ar reolau tarddiad ffafriol. Bydd perthynas y DU â'r Confensiwn yn y dyfodol yn dibynnu'n rhannol ar drefniadau rhwng y DU a'r UE, felly mae'r Cytundeb Masnach rhwng y DU ac Israel yn adlewyrchu darpariaethau'r Confensiwn mewn cyd-destun dwyochrog gyda rhai addasiadau.

60. Mae'r ymrwymïadau a wnaed rhwng yr UE ac Israel ar wasanaethau a chaffael cyhoeddus wedi cael eu cadw yn y cytundeb rhwng y DU ac Israel.

61. Mae darpariaethau'r Protocol rhwng yr UE ac Israel ar Asesu Cydymffurfiaeth a Derbyn Cynhyrchion Diwydiannol wedi'u hymgorffori yn y Cytundeb rhwng y DU ac Israel. Mae'r Protocol hwn yn lleihau'r rhwystrau technegol i fasnachu ar gyfer cynhyrchion fferyllol, trwy gyd-gydnabod canlyniadau arolygiaeth pob ochr ar gyfer arferion gweithgynhyrchu gorau a gyfer nwyddau fferyllol. Mae hyn yn golygu nad oes angen i arolygwyr Israel archwilio cyfleusterau'r UE, na'r UE archwilio cyfleusterau Israel. Mae'r cytundeb rhwng y DU ac Israel yn cadw'r agweddau sy'n caniatáu cyd-gydnabod gofynion o ran asesu cydymffurfio gorfodol. Ar gyfer archwiliadau arferion gweithgynhyrchu gorau, mae hyn yn golygu y bydd y DU ac Israel yn parhau i dderbyn canlyniadau arolygiaeth ei gilydd ar gyfer arferion gweithgynhyrchu gorau a gyfer nwyddau fferyllol. Mae hyn yn golygu y bydd y rhwymedigaethau presennol a nodir yn y Protocol rhwng yr UE ac Israel yn parhau i gael effaith ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r cytundeb hwn

yn cwmpasu 11% o allforion nwyddau'r DU i Israel, ac 13% o'r nwyddau a gaiff eu mewnfario i'r DU o Israel.

62. Mae Arsyllfa Polisi Masnach Prifysgol Sussex wedi nodi dadansoddiad o gymalau gwlad fwyaf ffafriol ym mhob un o gytundebau'r UE yr hoffai'r DU barhau â hwy. **Mae gan Israel gymalau gwlad fwyaf ffafriol cyfyngedig yn ei chytundeb â'r UE.** Mae'r rhain yn ailadrodd y cymalau gwlad fwyaf ffafriol yng Nghytundeb Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd ar Fasnach mewn Gwasanaethau. Mae'r rhwymedigaethau'n gymwys i benodau ar yr hawl i sefydlu a chyflenwi gwasanaethau, ond nid ydynt yn gymwys i'r dewisiadau a roddwyd mewn cytundebau masnach eraill.

63. O ran materion eraill a gwmpesir gan y cytundeb, mae'r Cytundeb Masnach gwreiddiol rhwng yr UE ac Israel yn cynnwys trefniadau nawdd cymdeithasol sy'n ymwneud â chyfuno cyfnodau o yswiriant, cyflogaeth neu breswylfa yn Aelod-wladwriaethau'r UE â chyfnodau yswiriant, cyflogaeth neu breswylfa yn y DU, a hynny at ddiben pensiynau, budd-daliadau analluedd a gofal meddygol ar gyfer gweithwyr o Israel a gyflogir yn gyfreithiol ynghyd â'u teuluoedd. O dan y cytundeb hwn, caniateir i ddinasyddion o Israel sy'n gweithio'n gyfreithiol yn y DU gael mynediad at lwfansau teulu yn y DU ar gyfer eu haelodau teulu sy'n byw yn y DU. Gellir cael mynediad at bensiynau a gwahanol fudd-daliadau, er enghraifft ar gyfer salwch galwedigaethol ac analluedd, yn y DU ac os byddant yn dychwelyd i Israel. **Ni fydd y DU ac Israel yn gweithredu'r mesurau sy'n ymwneud â chronni yswiriant neu gyflogaeth nes bydd y DU a'r UE yn dod i gytundeb priodol ar sut i wneud hyn**, oherwydd y posibilrwydd na fydd gan y DU drefniant rhannu data priodol gyda'r UE o dan senario Brexit heb gytundeb. Gallai'r newid hwn effeithio ar 20,000 o ddinasyddion Israel sy'n byw yn y DU a 22,000 o ddinasyddion y DU sy'n byw yn Israel. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir er bod 24,000 o bobl wedi'u geni yn Israel ac sy'n byw yn y DU, mae gan lawer o'r rhain genedligrwydd Prydeinig (mae llai na 1,000 ohonynt yn byw yng Nghymru), felly mae 5,000 o wladolion Israel yn byw yn y DU.

64. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn datgan:-

The Government is also in close contact with the Devolved Administrations and continues to engage the Governments of the territories for those international relations the UK is responsible.

International relations including the making of treaties is not devolved. However as there is likely to be significant impact on Scotland, Wales and Northern Ireland, the government has regularly updated the

Devolved Administrations and has shared the texts of parliamentary reports and explanatory memorandums with them.

65. Yn gryno, roedd masnach rhwng y DU ac Israel yn cynrychioli 0.3% o gyfanswm masnach a nwyddau'r DU yn 2017, a 0.26% o fasnach nwyddau Cymru yn 2017. Mae yna effaith bosibl yn sgil newidiadau i nawdd cymdeithasol a allai effeithio ar 20,000 o ddinasyddion Israel sy'n byw yn y DU a 22,000 o ddinasyddion y DU sy'n byw yn Israel, ond noder nad yw nawdd cymdeithasol wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae'r newidiadau eraill yn y cytundeb hwn yn gymharol fach megis newidiadau i gwotâu cyfraddau tariff, a rheolau tarddiad. Bydd effaith darpariaethau eraill fel cyd-gydnabod nwyddau fferyllol, gwasanaethau a chaffael cyhoeddus yn aros yr un fath.

Cytundeb dros dro rhwng y DU ac Awdurdod Palesteina

66. Cafodd y cytundeb rhwng y DU ac Awdurdod y Palesteina ei lofnodi ar 18 Chwefror 2019. Mae'r Memorandwm Esboniadol ochr yn ochr â'r cytundeb yn egluro statws y cytundeb:

Nothing in the UK-Palestinian Authority Interim Agreement should be interpreted as recognition by the UK of Palestine as a State. Accordingly, the Agreement is not formally a treaty falling within the scope of section 25(1) of the Constitutional Reform and Governance Act 2010. The Government has chosen to lay the Agreement before Parliament in order to provide Parliament with an equivalent opportunity to scrutinise it as it has had for other trade agreements.

67. Awdurdod Palesteina yw 186ed partner masnachu mwyaf y DU, sy'n gyfrifol am lai na 0.1% o gyfanswm masnach y DU. £17 miliwn oedd cyfanswm y masnach mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU ac Awdurdod y Palesteina yn 2017. Yn 2017, roedd allforion y DU i Awdurdod Palesteina yn werth £15 miliwn, gan ei gwneud yn 174ydd partner allforio mwyaf y DU (sy'n gyfrifol am lai na 0.1% o holl allforion y DU). Roedd mewnforyn y DU o Awdurdod Palesteina yn werth £2 miliwn, gan ei gwneud yn 177fed partner mewnforyn mwyaf y DU (sy'n gyfrifol am lai na 0.1% o holl fewnforyn y DU).

68. O allforion y DU i Awdurdod Palesteina yn 2017, roedd £12 miliwn mewn gwasanaethau, ac roedd £4 miliwn yn gerbydau heblaw stoc rheilffordd neu dramffordd. Prif fewnforyn y DU o Awdurdod Palesteina yw gwasanaethau; ffrwythau a chnau bwytdwy; a braster ac olew anifeiliaid neu lysiau.

69. Nid yw data ar gyfer masnachu mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng Cymru ac Awdurdod Palesteina ar gael o'r setiau data cyhoeddedig oherwydd y swm isel o fasnach.

70. Mae gan yr UE system prisiau mynediad ar gyfer 15 math o ffrwythau a llysiau. Mae hwn yn fecanwaith tariffau amrywiol ar gyfer cynhyrchion yn ystod tymhorau cnwd yn Ewrop. O dan y system prisiau mynediad, codir toll benodol yn ychwanegol at y doll yn ôl gwerth, a hynny pryd bynnag y mae'r pris y caiff y nwyddau eu mewnfario yn is na'r pris mynediad sydd wedi'i bennu ymlaen llaw. Mae'r doll benodol yn amrywio gan ddibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y pris mynediad a phris mewnfario'r nwyddau. Os yw pris mewnfario'r llwyth nwyddau lai nag 8% yn uwch na'r pris mynediad, bydd y tariff yn cael ei gymhwyso'n llawn.

71. Mae'r DU yn cadw'r hyblygrwydd i weithredu system prisiau mynediad ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r atodiad i'r cytundeb byr hwn yn sicrhau bod gan y DU hawl i weithredu system prisiau mynediad, sy'n adlewyrchu system yr UE, ar yr adeg y daw'r cytundeb i rym. Os bydd y DU yn cymhwyso system prisiau mynediad, bydd y cytundeb hwn yn darparu bod yr elfen o'r doll sy'n seiliedig ar werth yn cael ei ddileu, ond bydd y doll benodol ychwanegol yn cael ei chadw. Byddai'r doll benodol ychwanegol yn cael ei chymhwyso, ni waeth a gâi'r elfen o'r doll sy'n seiliedig ar werth ei dileu ai peidio fel a ddarperir yn y Cytundeb hwn. Mae'r dull hwn yn gyson â'r telerau ffafriol a amlinellir yn y Cytundebau presennol rhwng yr UE ac Awdurdod Palesteina.

72. O ran rheolau tarddiad, gellir cronni deunyddiau'r UE yn allforion y DU ac Awdurdod Palesteina i'w gilydd. Ymhellach, gellir cydnabod trefniadau prosesu'r UE yn allforion y DU i Awdurdod Palesteina. Mae'r trefniadau hyn yn amodol ar fodloni amodau penodol a nodir yn y cytundeb. Mae'r UE ac Awdurdod Palesteina wrthi'n contractio partïon i'r Confensiwn Rhanbarthol pan Ewropeaidd Mediteranaidd ar reolau tarddiad ffafriol. Bydd perthynas y DU â'r Confensiwn yn y dyfodol yn dibynnu'n rhannol ar drefniadau rhwng y DU a'r UE, felly mae'r Cytundeb rhwng y DU ac Awdurdod Palesteina yn adlewyrchu darpariaethau'r Confensiwn mewn cyd-destun dwyochrog gyda rhai addasiadau.

73. Mae'r ymrwymadau a wnaed rhwng yr UE ac Awdurdod Palesteina ar wasanaethau wedi cael eu cadw yn y Cytundeb rhwng y DU ac Awdurdod Palesteina.

74. Roedd y cytundeb rhwng yr UE ac Awdurdod Palesteina yn cynnwys darpariaethau 'chwarae teg' a oedd yn ymwneud â chystadleuaeth, cymorthdaliadau/cymorth gwladwriaethol a mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth, yn seiliedig ar feini prawf yr UE. Mae'r rhain wedi cael eu dileu, ac nid yw

Llywodraeth y DU yn credu y byddai wedi bod yn briodol efelychu hyn mewn cyddestun dwyochrog. Nid yw Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd dileu'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar fusnesau o'r DU gan y byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gyfraith ddomestig y DU, ac ni fydd y gyfraith honno yn gwrthdaro â darpariaethau'r cytundebau.

75. Mae Arsyllfa Polisi Masnach Prifysgol Sussex wedi nodi dadansoddiad o gymalau gwlad fwyaf ffafriol ym mhob un o gytundebau'r UE yr hoffai'r DU barhau â hwy. **Nid oes cymalau gwlad fwyaf ffafriol yn y cytundeb a fyddai'n effeithio ar unrhyw un o gytundebau masnach rydd eraill y DU.**

76. Mae'r DU ac Awdurdod Palesteina hefyd wedi ailadrodd Datganiad Cyffredin ynghylch cydweithredu ar rwystrau technegol neu lanweithiol/ffytoiechydol sy'n effeithio ar faterion masnach.

77. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn datgan:-

The Government is also in close contact with the Devolved Administrations and continues to engage the Governments of the territories for those international relations the UK is responsible.

International relations including the making of treaties is not devolved. However as there is likely to be significant impact on Scotland, Wales and Northern Ireland, the government has regularly updated the Devolved Administrations and has shared the texts of parliamentary reports and explanatory memorandums with them.

78. I gynhoi, roedd masnach rhwng y DU ac Awdurdod Palesteina yn cynrychioli llai na 0.1% o gyfanswm masnach y DU mewn nwyddau a gwasanaethau yn 2017. Mae rhai newidiadau sy'n gymharol fach, megis rheolau tarddiad a newidiadau i fesurau 'chwarae teg', ond ni fydd y rhain yn effeithio ar fusnesau yn y DU ym marn Llywodraeth y DU, gan y byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gyfraith ddomestig y DU. Yn ogystal, dywedodd Llywodraeth y DU fod y dull o ymdrin â Chynllun Diogelu'r Amgylchedd yn gyson â chytundeb yr UE ag Awdurdod Palesteina, a bod y ddwy ochr yn cynnal ymrwymadau o ran gwasanaethau.

Casgliad

Er ein bod yn falch o glywed bod lefel y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwella, rydym yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i ystyried testun y cytundebau hyn cyn iddynt gael eu llofnodi.

Rydym yn ailadrodd ein galwad i Lywodraeth Cymru gael gweld testun cytundebau cyn iddynt gael eu llofnodi ac yn credu bod hyn er lles Cymru a Llywodraeth y DU.